

Trwy ebost

02/02/2018

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy a Swyddogion Cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft cyfredol, sef:

- Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc.
- Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig.
- Amddiffyn a gwella cydnherthedd ein hamgylchedd naturiol tra'n lliniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd.
- Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd â ganddi gysylltiadau da.

Darganfu fy nhîm bod siarad â chi'n gyson a gweld eich gwaith wrth iddo symud yn ei flaen wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr o'r modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd. Diolch am drefnu'r cyfleoedd hyn a gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu cyson rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Fel y bydd fy nhîm wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn. Felly, buaswn yn eich cynghori i ddarllen hwn ar y cyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus i fy adolygiadau o'r asesiadau 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd ati i asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais [hefyd 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau a chyrrff cyhoeddus ar feysydd allweddol lle mae angen newid cyn y gellir gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant neu eich cynllun drafft yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol. Yn hytrach, bwriad y cyngor hwn yw eich helpu i herio'r modd y mae pethau'n cael eu gwneud a dangos sut yr ydych yn gwneud hyn drwy eich cynllun llesiant. Felly, mae rhan gyntaf fy nghyngor yn ymwneud â sut y gallwch weithio gyda'ch gilydd yn wahanol gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio i herio 'busnes-fel-arfer'. Mae ail ran fy nghyngor yn seiliedig ar eich amcanion drafft ac mae'n rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i

ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Mabwysiadu gwahanol dulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Nid 'busnes-fel-arfer' yw gosod amcanion a chamau. Rwyf wedi dweud wrth bob BGC y buaswn yn hoffi deall beth a olyga hyn i'w hardal hwy yn benodol a sut mae hyn yn wahanol i'r hyn a wnaethpwyd yn y gorffennol. Hynny yw, pa wasanaethau fydd yn cael eu heffeithio, pa ymrwymadau yr ydych wedi eu gwneud a sut mae pethau'n newid i bobl Sir Fynwy. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, [beth](#) ydych yn ei wneud i gyfrannau tuag at ein gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd, felly beth ydych chi'n mynd i'w wneud yn wahanol gyda'ch gilydd? A [sut](#) ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio'ch gweithgareddau yn Sir Fynwy?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn y ffordd hon yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae angen i chi roi amser a gofod i chi eich hunain fel BGC i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion. Yn ymarferol mae hyn yn golygu rhoi amser o'r neilltu ar gyfer cyfarfodydd neu greu sesiynau i ddefnyddio'r pum dull o weithio a nodir isod, adeiladu dealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau eich gilydd a thrafod eich cymhellion. Rwyf wedi argymhell yn ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) ein bod yn rhoi'r gorau i edrych ar FGCau fel cyfarfod pwyllgor o dan arweinyddiaeth awdurdod lleol - a'i weld fel lle i weithredu, nid lle ar gyfer gwneud cyflwyniadau diddorol. Dylai'r BGC fod yn ymwneud â dull newydd o weithio, nid un sy'n cael ei sbarduno gan ddiwylliant un sefydliad. Gall Cadeirydd y BGC, sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut mae'r BGC yn cael ei gefnogi, i gyd newid dulliau o feddwl a chaniatáu ar gyfer her iachach i fusnes-fel-arfer.

Wrth gymryd amser a gofod i ystyried eich camau, bydd angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar y camau y byddwch yn eu cymryd? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd arnoch eu hangen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? I drwytho'ch gweithredu, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Rwy'n ymwybodol fod y Cyngor wedi ymgymryd â mapio peth o 'Sir Fynwy'r Dyfodol' a bod eich PSB yn rhan o'r cais cydweithredol ar draws Gwent ar gyfer rhagweld y dyfodol a bydd gennyf ddiddordeb i glywed y canlyniadau a sut y cânt eu defnyddio. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn

ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Oxford Martin School 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, a oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu). Mae llawer o FGCa heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd gwasanaethau ac adnoddau'n newid yn Sir Fynwy i fod yn fwy ataliol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalo cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thuueddiadau i drwytho eich camau.
- **Cydweithio:** Mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn? Gwnaeth y cysylltiadau a wneir gan eich tîm cynorthwyol yn rhyngwladol argraff arnaf, ac mae eu rhagweithgarwch yn haeddu canmoliaeth. Beth fedr sefydliadau eraill ei wneud i gynorthwyo'r ymchwil hwn a manteisio ar gyfleoedd? Wrth gyflawni'r camau hyn, sut fedrai eich sefydliadau gydweithio'n well.

Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn cwrdd yn effeithiol â'ch amcanion. Gallai hyn gynnwys adleoli staff, chwalo strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau, ac, o'r pwys pennaf, rannu adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych chi wedi symud tuag at wireddu'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n magsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch

amcanion? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Mae fy nhîm wedi siarad yn gadarnhaol am y gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel Gwent-gyfan a bydd gennyf wir ddiddordeb mewn deall y manteision a fydd yn deillio o hyn wrth i ni symud tuag at gyflawni cynlluniau llesiant. Fel BGC, ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi rhwng sefydliadau sy'n aelodau a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyfylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Rwy'n cydnabod yr ymgysylltu yr ymgwymerwyd ag ef drwy 'Ein Sir Fynwy Ni' ar gyfer eich asesiad llesiant ac rwyf wedi bod yn cynghori BGCau eraill i ymweld â 'Sir Fynwy Agored' fel enghraifft o ennyn ymgyfraniad pobl mewn ffordd sy'n gyfleus iddynt hwy. Rwyf yn dymuno gweld pob BGC yn canolbwyntio'n gyson ar ennyn ymgyfraniad pobl. Wrth gyflawni hyn, sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd y bobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i wella ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Gwn eich bod wedi defnyddio'r nodau i lunio eich amcanion, ond maen nhw yno hefyd i'ch helpu i archwilio'r tensiynau a'r cyfleoedd o weithio gyda'ch gilydd i gyflawni gwell gwasanaethau cyhoeddus i Gymru. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, rwy'n dymuno gweld BGCau yn dangos sut y gall pob aelod facsimeiddio eu cyfraniad tuag at, er enghraifft, gymdeithas garbon isel, ecosystemau gweithredol iach, cymunedau diogel â chysylltiadau da neu modd o amddiffyn yr iaith Gymraeg drwy'r amcanion a'r camau a osodwyd ganddynt. Bydd angen i chi fabwysiadu rôl arweinyddol ac ystyried sut mae eich sefydliad ar hyn o bryd yn cyfrannu tuag at y nodau a sut y gallwch gymryd camau rhesymol wrth weithredu swyddogaethau'r sefydliad i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan fod amcanion unigol cyrff cyhoeddus wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCAu a chyrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno sicrhau nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono.

Mae sicrhau eich bod yn perchenogi'r cynllun hwn mewn gwirionedd a bod y camau a bennir gennych yn cael eu deall a'u gweithredu gan eich staff drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio yn her - ond yn hollbwysig ar gyfer llwyddo i wella llesiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'ch arweinyddiaeth ar lefel BGC dreiddio drwy bob lefel o'ch sefydliad. Fel arweinyddion, rwy'n siŵr eich bod yn rhan o strwythurau partneriaethau niferus, cyfarfodydd a chynlluniau newydd, ond bwriedir i'r BGC fod yn gyfle ar gyfer integreiddio

a chydweithio ar lefel uwch ac ar lefel dylanwadol. Sut ellid ennyn partneriaethau eraill i gydweithio i gymryd camau i'ch helpu i gwrdd â'ch amcanion? Mae cyfleu i'ch uwch dimau rheoli pam fod gwaith y BGC yn bwysig a bod defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunan yn allweddol ar gyfer creu'r newid mewn diwylliant a hyrwyddir yn eich cynllun drafft. Ledled Cymru rwyf wedi bod yn clywed bod hyn yn hynod berthnasol i reolaeth ganol, sydd efallai'n ei chael hi'n anodd cyfaddawdu fframweithiau presennol gyda'r Ddeddf. Fy rôl i yw adnabod a lliniaru rhwystrau - eich rôl chithau hefyd yw herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a'u darbwyllo ei bod hi'n 'saff i fethu'.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. Mae gen i ddi-ddordeb i weld sut mae gwahanol FGCau yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Gwn fod rhai BGCau eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith mwy clos, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae nifer o adnoddau ar gael a allai fod yn ddefnyddiol megis [Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change](#) a [Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability](#). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn sefyllfaoedd o arweinyddiaeth, chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen. Gobeithio y byddwch yn parhau i arwain ymagwedd seiliedig ar wybodaeth i ddarganfod datrysiadau sy'n wahanol i'r rhai a fabwysiadwyd yn y gorffennol.

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac y byddant yn cyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Bydd ail ran fy nghyngor yn eich helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant sut yr ydych wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar gasgliadau eich asesiad, wedi blaenoriaethu materion drwy ymgysylltu gyda chi ac ymgysylltu ag eraill i gasglu gwybodaeth broffesiynol i ddrafftio eich amcanion a'ch camau. Fel y dywedais yn fy adborth i'ch asesiad llesiant, credaf y bydd yn bwysig i chi archwilio heriau arbennig a chyfleoedd yn y cymunedau a ddiffiniwyd gennych; gan ddehongli eu harwyddocâd i Sir Fynwy a pham y maent yn effeithio ar ardaloedd arbennig. e.e. Pa wasanaethau lleol yr effeithir arnynt os yr ydych yn ailgyfeirio eich buddsoddiad? Oes yna dueddiadau hirdymor ar gyfer cymunedau arbennig a fydd yn eich barn yn gwaethygu os na fyddwch yn gweithredu? Pa gymunedau fyddai'n elwa a sut? Beth fedrwch chi ei wneud yn wahanol i gyfrannu at bob un o'r saith nod? Bydd angen i chi ddangos eich bod wedi meddwl am y pethau hyn wrth ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion drafft.

Mae hyn yn rhoi peth cyngor ar y modd y gallwch fframio'r gweithdy a gynlluniwyd gennych ar gyfer datrys y broblem, y cyfle a'r datrysiad, a mesur effaith eich amcanion drafft. Deallaf y bydd eich ffocws drwy gydol y

flwyddyn ar ddeall y nodweddion hyn ymhellach. Awgrymaf eich bod yn dangos y dulliau hyn o weithio, a'u gwneud yn glir yn eich cynllunio llesiant. Fel yr wyf wedi dweud wrth bob BGC, rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r atebion i gyd gennych eto a buaswn yn eich annog i ddisgrifio peth o'r gwaith yr ydych yn ei wneud (megis y cydweithio rhyngoch a Grŵp Strategol Asesu Llesiant Gwent) i archwilio datrysiadau posibl yn awr a thu hwnt i gyhoeddi eich cynllun. Gobeithiaf y bydd fy nghyngor isod yn eich helpu i archwilio rhai o'r rhain mewn perthynas â phob un o'ch amcanion.

- ***Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc.***

Rydych yn gywir wrth asesu bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac anawsterau yn fwy tebygol o gael llesiant gwael ymhellach ymlaen yn eu bywydau. Mae'r rhan fwyaf o FCGau wedi drafftio amcanion sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn, a hoffwn ddeall, wrth i gamau gael eu cymryd i gwrdd â'u hamcan, beth sy'n mynd i newid ar bob lefel i wneud i hyn ddigwydd? Sut fydd gwasanaethau ar gyfer rhieni a theuluoedd arfaethedig yn newid yn Sir Fynwy i ddarparu i blant y cychwyn gorau mewn bywyd? Pa dystiolaeth leol fyddwch yn ei defnyddio i ddeall modelau gwasanaethau llwyddiannus ac ymyriadau ataliol sy'n gweithio? Mewnbyn pwy allai fod ei angen arnoch i ddeall hyn yn well? Pwy ddylai fod o gwmpas y bwrdd i wneud i hyn ddigwydd?

Gall effeithiau methiant i fabwysiadu ymagwedd ataliol fod yn enfawr - i fywyd yr unigolyn ac i'ch sefydliadau a'r pwrs cyhoeddus. [Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#): (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7 biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant, a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Wrth gwrs, mae'r amcan hwn yn ymwneud ag atal a chwalu'r cylch, sy'n berthnasol nid yn unig i blant sydd eto i gael eu geni ond y teuluoedd hynny sydd eisoes mewn angen a phobl ifanc sy'n debygol o ddod yn rhieni. Rwyf hefyd yn annog BGCau i feddwl beth a olyga'r amcan drafft hwn yng nghyd-destun y saith nod llesiant. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y [1000 o Ddiwrnodau Cyntaf](#) yn dangos sut y gall buddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf fod yn fanteisiol i'w llesiant yn gyffredinol. Beth fyddai'n newid petaech yn cymhwyso'r gwaith hwn i Sir Fynwy? Beth fyddai'r effaith ar wasanaethau lleol petaech yn ailgyfeirio eich buddsoddi tuag at y 1000 diwrnod cyntaf? Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu 'Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd' i gydgyssylltu eu gwaith o gwmpas y Ddeddf, a, drwy gynrychiolydd eich BGC, efallai y byddwch o'r farn ei bod yn ddefnyddiol i gysylltu â'r tîm cenedlaethol am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth.

Mae'n rhaid i'r camau i gwrdd â'r amcan hwn fod yn llawer ehangach na'r hyn a fedr y blynyddoedd cyntaf, addysg a gwasanaethau iechyd eu cyflawni. Mae llawer o bethau'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Er enghraifft, darganfu'r [London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree yn 2013](#) bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref

neu nodweddion rhieni. Un o'r heriau mwyaf a nodwyd gennych yw fel y mae pobl yn byw mewn tldi yng nghysgod cyfoeth cymharol yn Sir Fynwy. Mae eich asesiad yn nodi mai'r ardaloedd o gwmpas Abergafenni yw'r rhai mwyaf difreintiedig yn y sir, ond mae anghydraddoldebau'n bodoli mewn mannau eraill. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Sut y gellir ffocysu, yn arbennig, ar y cymunedau hyn? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn.

Fel y cyfryw mae angen i ni roi'r gorau i edrych ar feichiogrwydd a blynyddoedd cynnar fel 'mater iechyd' gan archwilio'r cyfleoedd sy'n bodoli i herio darpariaeth gwasanaethau cyfredol gan ddefnyddio'r amcan hwn fel ffocws, a'r saith nod llesiant cenedlaethol fel canllaw. Mae plant yn byw mewn teuluoedd, sy'n byw o fewn cymunedau ac maent yn cyrchu llawer o wasanaethau. Fel yr ydych yn cydnabod, mae llawer o ffactorau'n bodoli'r tu allan i iechyd teulu sy'n effeithio ar roi i blant y cychwyn gorau mewn bywyd. Mae'r adroddiad [Sefydliad Economaidd Newydd, Backing the Future](#) yn amlygu'r rôl sydd gennym i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol - megis tai, tldi ac addysg - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol.

Gall tldi, camdriniaeth, gwahaniaethu a ffurfiau eraill o anfanteision gael effeithiau parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc gan effeithio'n ddifrifol ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae cyfleoedd yn ystod plentyndod yn allweddol a'r ymyriadau cadarnhaol a roddir yn eu lle yn awr gan Gymru i amddiffyn a darparu ar gyfer plant yn helpu i sicrhau dyfodol mwy llewyrchus, iach a chydlynol i Gymru. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i gynghori y dylai cyrff cyhoeddus a BGCau roi mwy o ffocws ar hawliau a llesiant plant yn eu gwaith asesu parhaus a'u cynlluniau llesiant. Gall ffocysu ar hawliau plant helpu BGCau wrth iddynt ymgynghori, gwneud penderfyniadau a chynllunio eu rhaglenni. Byddai hyn yn cynnwys datblygu polisiâu sy'n ffocysu ar hawliau plant, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gynorthwyo'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth yn cael ei dreialu a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r swyddfa Comisiynydd Plant yn hapus i roi cyngor i chi ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n talu sylw i hawliau plant.

Rydym yn aml yn delio â symptomau anfanteision yn hwyrach mewn bywyd, p'un ai mewn diweithdra, problemau tai, materion iechyd neu ganlyniadau mwy difrifol megis camddefnyddio sylweddau, salwch meddyliol neu ymddygiad troseddol. Fel mewn llawer ardal ledled Cymru, mae Sir Fynwy wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sydd o dan ofal yr Awdurdod Lleol. Ar adeg eich asesiad, roedd camdriniaeth ddomestig yn digwydd yng nghartrefi 26% o blant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Fynwy. Hefyd, roedd rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol yn digwydd mewn chwarter o'r cartrefi oedd yn derbyn cymorth. Mae hefyd yn werth cydnabod mai achosion y gwyddys amdanynt yw'r rhain a bod y nifer cywir o blant sy'n byw mewn cartrefi lle mae camddefnyddio sylweddau neu alcohol yn digwydd, yn debygol o fod yn uwch.

Mae gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn rhoi tystiolaeth i ni sy'n dangos sut mae llesiant hirdymor yn cael ei effeithio gan ddigwyddiadau yn ystod plentyndod. Mae mabwysiadu ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau i ddelio ag achosion sydd wrth wraidd materion. Er ei bod yn bwysig i gael gweithlu sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a bod medru adnabod arwyddion rhybudd a rhoi cymorth

yn bwysig, mae hyn yn mynd tu hwnt i hynny, tuag at wneud yn siwr bod y gwasanaethau y mae pobl yn eu cyrchu yn integredig ac yn medru chwalu'r cylch. Fel BGC sy'n ffocysu ar y blynyddoedd cynnar, mae angen i chi adolygu cynlluniau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau tai, ac eraill i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydgyssylltiedig ac yn ymroi yn weithgar i ddod o hyd i sefyllfaoedd gwell i deuluoedd a rhieni'r dyfodol.

Ar hyn o bryd rydym yn delio â phobl mewn categorïau destlus 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'un sy'n euog o ymddwyn yn wrthgymdeithasol'; 'un sy'n camddefnyddio sylweddau', neu 'denant trafferthus'. Mae gweithio yn y ffordd hon yn golygu ein bod yn methu dod i gasgliadau ar gyfer integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Mae deall profiadau bywyd rhywun yn y cyd-destun hwn yn aml yn ysgytiol ac mae'n rhoi persbectif ffres i'r dull o lunio gwasanaethau ataliol. Mae'r hyn y mae gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl eu bod yn eu gwneud yn y ffordd gywir yn aml yn wahanol iawn o safbwynt y bobl sy'n eu derbyn. Bwriad y pum dull o weithio yw herio sut yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn, a darparu lens ar gyfer delio â phroblemau. Mae ennyn ymgyfraniad pobl yn ganolog wrth herio'r system oherwydd dim ond wrth wrando ar bobl y gallwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau cyfredol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon ['Why poor people don't plan long-term'](#) yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth oresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yn yr [adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu ymagwedd holistig ac ataliol tuag at fywydau pobl.

Yn ddiweddar bu Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn gweithio gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad un peth arall i dalu sylw iddo yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gallai BGCau rannu arfer da, gan fod bron bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, ac sy'n rhoi cychwyn da i blant mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae Alyson a minnau hefyd ar banel gwefinar [Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) a gynhelir ar y 7^{fed} Tachwedd, a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

- [Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig.](#)

Mae eich asesiad llesiant yn nodi gymaint o ased yw'r boblogaeth hyn yn Sir Fynwy yn nhermau gofalu, gwirfoddoli a chyfrannu i'r economi. Fel yr ardal â'r disgwyliad oes uchaf yng Nghymru, mae oddeutu chwarter y bobl sy'n byw yn Sir Fynwy dros 65 mlwydd oed ac rydych wedi rhagweld i ba raddau y bydd y nifer o bobl hyn yn cynyddu yn Sir Fynwy dros y genhedlaeth nesaf. Erbyn 2039, dywed eich asesiad y bydd 37% o'ch poblogaeth dros 65 mlwydd oed a 9% dros 85 mlwydd oed. Yr ydych yn cydnabod, yn gywir, bod hyn yn gyfle ac yn her. Mae gwaith [y Comisiynydd Pobl Hŷn](#) yn arbennig o ddefnyddiol wrth archwilio'r camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn ac mae'n cynnwys ei chyfarwyddyd diweddar i FGCAu. Ar yr un pryd, mae'r nifer o blant a phobl ifanc yn lleihau ac mae hyn yn creu pwysau o natur wahanol.

Yn awr, gan fod gennych amcanion drafft a'ch bod yn ystyried eich ymateb, buaswn yn eich cyngori i dwrio'n ddyfnach i mewn i'r data. Mae hwn yn fater cymhleth sy'n gofyn i chi edrych ar y gwahaniaethau ar draws Sir Fynwy, integreiddiad presennol gwasanaethau a ffactorau allanol megis ardaloedd gwledig, neu drafnidiaeth gyhoeddus, gwrando ar yr hyn a ddywedwyd wrthyfych gan bobl am y sefyllfa a chydweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau gan ddefnyddio'r saith nod llesiant. Gofynnwch i chi eich hunain a yw'r ddarpariaeth bresennol yn addas ar gyfer rheoli'r mater hwn sydd ar gynydd? Ble allai fod arnynt angen mwy o weithredu ar y cyd? A yw'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac ym mha ardaloedd y gall bod angen gweithredu mwy ar y cyd. Beth yw effaith gwledigrwydd? Pa mor addas yw darpariaeth TG? Beth yw'r cyfyngiadau ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus? Sut mae lefelau gwirfoddoli'n gwahaniaethu ar draws y sir? I ba raddau y mae lefelau gwirfoddoli'n amrywio ar draws y sir? I ba raddau y mae'r gwirfoddolwyr niferus yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC? Gallai deall profiadau bywyd pobl roi mewnwelediad pwysig i chi o'r modd y mae gwahanol gymunedau'n byw eu bywydau a ble byddai eich gwasanaethau yn fwyaf defnyddiol. Er enghraifft, oes yna dulliau y gallai'r BGC eu defnyddio i annog a gwobrwyo'r gweithgaredd hwn gan gymuned mewn dulliau a fyddai'n eich helpu i gwrdd â'ch amcanion mewn ardaloedd arbennig? Mae adroddiad y Sefydliad Royal Town Planning, '[Poverty, Place and Inequality](#)' yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng ac o fewn cymunedau.

Rydych eisoes wedi nodi bod gwledigrwydd mewn rhai rhannau o Sir Fynwy, a thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig yn awgrymu y gall arwahanrwydd fod yn fater o bwys i bobl hyn, gan effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol. Mae ymchwil gan [Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) wedi dangos hyn ac wedi awgrymu bod unigrwydd ymhlith pobl hyn yn ymwneud â pha mor dda yw eu cysylltiad â'u cymunedau ac â theimlo bod ganddynt gyfraniad i'w wneud i'w cymdeithas. Er nad yw technoleg yn mynd i ddarparu'r atebion i gyd i arwahanrwydd mewn cymunedau gwledig, meddyliwch am yr effaith hirdymor a fedrai gael ar ein poblogaeth. Pobl hyn yfory yw pobl ieuengach heddiw, â ganddynt lawer mwy o sgiliau technolegol ar flaenau eu bysedd. Mae gennych record dda yn Sir Fynwy am ddefnyddio technegol i ddatrys problemau, gyda 'Sir Fynwy Agored' yn llwyfan posibl ar gyfer dwyn pobl at ei gilydd, gan atal arwahanrwydd cymdeithasol. Yn ein heconomi sy'n rhannu, a allai rhannu ceir fod yn un o'r atebion, neu drafnidiaeth gymunedol wedi ei chysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Sut fedr technoleg helpu pobl hyn i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi? Hefyd mae yna eisoes enghreifftiau o drôns yn darparu cyflenwadau meddygol, a galwadau fideo yn disodli apwyntiadau gydag ymarferydd cyffredinol, ynghyd â dosbarthiadau rhithwir sy'n digwydd nawr. Mae'r cysyniad o '[Hyperbentref](#)' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, [sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg](#). Sut ydych chi wedi meddwl am y posibiladau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn?

Sut ydych chi'n ystyried eich rolau chi eich hunain wrth ymateb i heriau newidiadau demograffig? Rwyf yn awyddus i weld y BGC yn mabwysiadu ymagweddau ataliol seiliedig ar asedau tuag at eu hamcanion. Ar hyn bryd prin fod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd yn delio â'r galw presennol ac, yn anffodus, mae llawer yn edrych ar dulliau traddodiadol o ddelio â hyn. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl, a bydd gennyf ddiddordeb i weld sut y byddwch yn dylanwadu ac yn rhoi pwysau ar Wasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Llesiant Rhanbarthol wrth gyflwyno eich ymateb i'ch amcanion. Mae'r



[adroddiad hwn gan Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg cyfeillgar i oed, atal pobl rhag bod ag angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi.

Mae gennych rôl mewn cynllunio, tai, a thrawsgludo, ac mewn creu lleoedd sy'n addasadwy ac yn medru newid, o leiaf dros y ddwy genhedlaeth nesaf. Mae gan Gymru gyfle i ddatblygu tai sy'n cwrdd yn well â newid demograffig, gan addasu technoleg i alluogi pobl i fyw yn annibynnol am amser hwy. [Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cronfa £20 miliwn i ariannu tai arloesol](#). Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y gronfa hon yn cynorthwyo cyflenwad tai fforddiadwy a hefyd welliannau yn ansawdd y tai a gaiff eu darparu. Dylai BGCau fod yn ymroi i ddylanwadu ar y modd y caiff y gronfa hon ei defnyddio a deall yr effaith a gaiff ar Gymru i drwytho eu camau hirdymor ar dai. Mae rhaglenni fel [Dinasoedd Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed gan addasu adeiladau, cynlluniau trafndiaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hŷn i gadw'n iach ac mewn cysylltiad â phethau sydd o bwys iddynt am amser hwy; mae [Laguna Woods](#), y ddinas gyntaf yn yr Unol Daleithiau sydd wedi ei neilltuo i bobl hŷn a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog. Yn ogystal â chyfrifoldebau'n ymwneud â chynllunio a seilwaith dylunio, mae yna nifer o brosiectau arloesol byd-eang sy'n annog tai preifat sy'n rhannu cyfleusterau, tai a gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu. [Mae myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal](#) mewn cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hŷn; mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau Rhannu Cartref](#), ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, mae'r [Almaen](#) wedi cyflwyno tai rhyng-genhedlaeth i bobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen. Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn barod i symud i fyw o fewn 1 cilomedr i'w neiniau a'u teidiau. Mae'r rhain i gyd yn gamau arloesol effeithiol.

Mae hyn yn dangos cysylltiad hanfodol rhwng amgylchedd eich cymuned â'ch llesiant. Fel y dywed ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru, mae arwahanrwydd yn ymwneud llawn cymaint â bod ar ben eich hunan yn gorfforol ag ydyw â theimlo eich bod yn rhan o rywbeth. Awgrymir gan ymchwil mai dim [ond 5% o bobl dros 65 mlwydd](#) oed sydd â chysylltiad o unrhyw fath â phobl ifancach. Mae [prosiectau sy'n pontio cenedlaethau yn dangos eu bod yn fanteisiol i bobl ifanc a hen](#), gyda phobl ifanc a hŷn yn mabwysiadu rôl y mentor. Sut fedr wch chi gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd? Mae'n galonogol iawn bod lefel gwirfoddoli yn uchel iawn yn Sir Fynwy, a phrosiectau sy'n annog pobl i wirfoddoli, megis 'Sir sy'n Gwasanaethu' a chynlluniau 'bod yn gyfaill' 'Cysylltiadau Cymunedol'. Sut fedr cynnydd mewn ymgyfraniad wella iechyd pobl hŷn yn eich ardal? Mae adroddiad diweddar gan ['Health and Wellbeing in Rural Areas'](#) a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn amlygu materion yn ymwneud â chefn gwlad yn Lloegr, ond hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos, megis y prosiect Fish Well yn Norfolk, sy'n anelu at wella iechyd a llesiant pobl yn yr ardaloedd lleol hyn. Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hŷn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant. Mewn rhai mannau o Gymru, mae'r trydydd sector yn gweithredu fel cysylltwyr cymunedol (sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Gofal Canolraddol) i helpu pobl sy'n agored i niwed o bob oed i gael mynediad i bethau yn eu cymunedau, gan atal yr

angen am wasanaethau statudol. Mae yna rai enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnerthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Siediau Dynion Cymru](#), sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo.

Mae parhau i ddysgu drwy gydol oes wedi profi i fod yn fanteisiol i lesiant iechyd meddwl a chorfforol pobl, yn ogystal â llesiant cymdeithasol. Mae yna gyfle gwirioneddol yma i chi ystyried sut i facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau llesiant. Sut fedrwch chi annog gweithgareddau sy'n hybu celf, diwylliant, dysgu'r iaith Gymraeg, gofalu am gynefinoedd naturiol, creu mentrau tyfu bwyd cymunedol, er enghraifft, sy'n helpu gyda llesiant pobl? Gan edrych i'r hirdymor, sut fedr y gweithgareddau hyn atal rhai achosion o afiechyd - rhai y gellid eu hatal - a ddiodefir gan bobl ac sy'n amharu ar eu hannibyniaeth? Mae [strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru](#) yn amlinellu rhai o'r manteision i iechyd, cydlynid a sgiliau'r boblogaeth sy'n deillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol, a gallai hyn eich helpu i adnabod sut y gall prosiectau fod o fantais fawr i'ch sefydliadau. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Mae tîm Comisiynydd yr iaith Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda fy swyddfa, i ystyried y dull gorau o fynd ati i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, fel y nodir yn ['Cymraeg 2050'](#). Os gwelwch yn dda gadewch i fy nhîm wybod os hoffech gysylltu ag unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

Mae BGCau ag amcanion tebyg yn cynnwys BGCau Conwy/Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, Ynys Môn a Gwynedd a Chasnewydd.

- [Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd â ganddi gysylltiadau da.](#)

Fel y mae eich asesiad a'ch ymgysylltiad yn cydnabod mae amgylchedd naturiol Sir Fynwy yn ased ac mae'n cael effaith cadarnhaol ar lesiant pobl. Mae lefelau Gwent, rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Dyffryn Gwy yn lleoedd hardd i fyw ynndynt, yn arwydd o dreftadaeth pobl, yn creu teimlad o berthyn ac yn darparu cynefinoedd pwysig ac ecosystemau. Mae gwerth economaidd eich amgylchedd hefyd yn ased; mae twristiaeth, amaeth, coedwigaeth a physgota yn arwyddocaol i'r sir. Dylai bygythiad y newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, felly, fod yn ffocws pwysig i'r BGC.

Fel y dywedais yn Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory' soniodd llawer BGC am dueddiadau yn eu hardaloedd sy'n peri gofid, ond maent yn parhau i ymgysylltu mewn materion diogel a diddadleuol. Bydd newid yn yr hinsawdd yn cael effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr, twristiaeth, cynhyrchiant glaswellt a chostau tanwydd yn Sir Fynwy. Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio a hyn yn effeithio yn ei dro ar bileri economaidd amaeth. Hoffwn weld BGCau yn defnyddio'r diffiniadau o'r saith nod llesiant i fframio'u hymagwedd, gan y gall hyn helpu pob partner i ddeall eu cyfraniad i'r mater arwyddocaol hwn. Y weledigaeth hirdymor ar gyfer rhai o'ch



cymunedau yw y gallent erydu i mewn i'r afon Hafren, a chael eu caethiwo gan lifogydd, gan fethu cyrchu cyflenwadau dŵr a chael eu hunain yn rhy bell o gyrraedd adnoddau. A yw ymagweddau presennol yn ddigonol ar gyfer ymdopi? Sut fedrwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallech ei ddefnyddio i warchod amaeth, cyflenwadau dŵr a thrawsgludo mewn digwyddiad tywydd eithafol? Mae adroddiad diweddar [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn nodi'r cyfrifoldeb, sy'n eiddo i ni i gyd i genedlaethau'r dyfodol, i weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd.

Cymeradwyais eich asesiad llesiant am edrych ar y pum ardal gymunedol ar draws y sir a'ch ffocws ar yr amgylchedd ym mhob un ohonynt. Rwy'n awgrymu eich bod yn adeiladu ar yr wybodaeth hon, yn defnyddio'r gwaith sydd ar y gweill ar senarios rhanbarthol y dyfodol ar draws Gwent, ac yn ennyn ymgyfraniad pobl wrth ddod i ddeall cydnherthedd y cymunedau hynny yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Fel y mae eich asesiad eisoes wedi nodi, yn Sir Fynwy, mae ardaloedd o bob prif dref mewn perygl o lifogydd o'r môr neu'r afon, gydag oddeutu 1,400 o bobl a bron i 300 o eiddo mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd. Mae llifogydd eisoes wedi effeithio ar Sir Fynwy sawl gwaith yn y pum mlynedd ddiwethaf a gyda'r [niwed blynyddol a ddisgwylir ar hyn o bryd i eiddo preswyl yng Nghymru yn £22 miliwn](#); ynghyd ag effeithiau niweidiol ar lesiant pobl, mae ystyried ymateb integredig i hyn yn hollbwysig. Bydd llifogydd yn gosod mwy o bwysau ar argaeledd dŵr yfed glân. Er bod yr afonydd Gwy a'r Wysg o ansawdd da, mae eich asesiad wedi nodi llygredd dŵr fel mater sy'n achosi pryder arbennig mewn rhannau o'r sir, a hyn yn bennaf oherwydd arferion amaethyddol a llygredd trefol. Ymgyfraniad pwy yr ydych yn chwilio amdano i ddeall yr achosion sydd wrth wraidd y mater hwn? Oes yna gynrychiolydd o'r gymuned amaethyddol wedi ymgyfrannu yn nhreffodaethau'r BGC? Gall deall gwahanol bersbectifau yn aml iawn gynnig atebion gwahanol i'r ffordd yr ydym wedi gwneud pethau yn y gorffennol. A fedrwch chi gydweithio gyda chymunedau amaeth a busnesau i ddarganfod atebion ataliol gyda'ch gilydd? Mae prosiectau megis ['GlawLif' Dŵr Cymru](#) yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd; mae prosiect ar y gweill ar hyn o bryd yn Grangetown, Caerdydd.

Mae angen i'ch cyfrifoldebau fel sefydliadau fod yn glir yn y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Sut fedrwch chi, fel uwch swyddogion, greu sefydliadau sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang a chyfrannu i Sir Fynwy gydnerth? Sut fedrwch chi ymroi i amddiffyn yr amgylchedd naturiol tra'n cyflawni eich amcanion eraill a'ch cyfrifoldebau statudol? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn sefyllfa addas i helpu partneriaid eraill i ddeall eu cyfraniad i'r amcan hwn a'u cysylltedd â'ch amcanion eraill. Byddaf yn siarad yn seminar Parciau Cenedlaethol Cymru'r wythnos nesaf, lle mae'r pynciau i'w trafod yn cynnwys yr heriau sy'n wynebu'r Gymru wledig, sut mae parciau cenedlaethol yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill a'r dulliau o graffu ar eu cynlluniau rheoli. Mae creu Sir Fynwy sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn cychwyn gyda chi - sut yr ydych yn caffael nwyddau lleol, yn buddsoddi yn y Fasnach Deg, yn ymroi i leihau eich allyriadau carbon a chynyddu eich effeithlonrwydd ynni fel sefydliadau cyhoeddus.

Gyda'ch gilydd mae gennych hefyd lawer o ystâd y sector cyhoeddus a gall y ffordd yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli eich datblygiadau yn y dyfodol, adeiladau, seilwaith a manau agored cyhoeddus a chymunedol eraill (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Cymunedol) arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gydnerthedd yr amgylchedd naturiol a phrofi eich cyfrifoldebau byd-eang fel sefydliadau. Mae'r adroddiad ['Closing the Circle'](#) ar yr economi cylchol ac

'Amgylchedd Cymru' a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, yn ddefnyddiol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol lle gall y sector cyhoeddus leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol i chi fel BGC. Mae [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#), yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, pendant a chost-effeithiol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, ac yn magsimeiddio effeithlonrwydd ynni, ac ymddengys ei fod wedi gwella'n arwyddocaol adferiad cleifion.

Mae eich asesiad wedi amlygu effaith trafndiaeth ar lygredd aer, gan greu problem ar hyn o bryd i Sir Fynwy, yn arbennig mewn ardaloedd trefol ag allyriadau uchel o gerbydau, megis ym Mrynbuga a Chas-gwent. Mae llygredd aer yn effeithio'n negyddol ar iechyd pobl ac yn effeithio'n arbennig ar blant, a hyn yn cysylltu â'ch amcan i roi cychwyn gorau mewn bywyd i blant. Yn rhannol mae hyn yn ymwneud â newid ymddygiad - annog pobl i ddefnyddio'u cerbydau'n llai aml, gwresogi cartrefi'n fwy effeithlon a defnyddio llai o ddeunyddiau. Mae [cyfrifydd ôl-troed amgylcheddol Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt](#) hefyd yn ein hatgoffa ni i gyd o'n potensial i greu newid, ac mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hól-troed carbon. Beth fedrwch chi ei wneud i annog y newid hwn mewn ymddygiad? Mae rhai BGCau yn ystyried sefydlu pwyntiau gwefru trydanol ar gyfer cerbydau ar draws y sir; cyflwyno ceir trydan i'w rhannu ar gyfer staff ac annog trafndiaeth lesol neu gyhoeddus.

Rydych hefyd mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n llawer ehangach ar allyriadau mewn meysydd megis trafndiaeth, ynni, y defnydd o dir a chaffael. Mae gennym ymrwymadau clir i gwrdd â hwynt yn nhermau lleihau carbon. Mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfangwbl erbyn 2050 ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Yr wythnos hon, mae Lesley Griffiths AC wedi gosod targed o 70% erbyn 2050. Mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r adroddiad '[A Smart Energy Future for Rural Areas](#)' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Mae eich asesiad llesiant wedi nodi'r potensial ar gyfer tyfu cynlluniau ynni adnewyddadwy'n lleol. Beth mwy fedrwch chi ei wneud i annog hyn? Yn ddiweddar [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau allyriadau carbon](#) wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Er mai cymharol isel yw maint yr allyriadau y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdano yng Nghymru, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n llawer ehangach ar allyriadau mewn meysydd megis trafndiaeth, ynni, y defnydd o dir a chaffael. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar y 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i archwilio sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n medru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon hirdymor eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu.



Parthed llawer o'r materion a nodwyd yn eich asesiad fel bygythiadau i'r amgylchedd naturiol, ymddengys adfer coetiroedd a phlannu coed fel datrysiad ymarferol. Mae yna ddiffyg cysylltedd coedwigoedd wedi ei nodi mewn rhai rhannau o'r sir, yn ogystal â chydabyddiaeth bod coed yn lleihau effeithiau llifogydd ac allyriadau ac yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth. [Mae Tsieina ar hyn o bryd yn plannu coed i greu 'Mur Mawr Gwyrdd'](#) a allai atal erydu, dal carbon, a darparu manteision economaidd i 'Bobl y Weriniaeth'. Erbyn 2050, gobaith y genedl yw plannu 88 miliwn o aceri o goetir gyda'r bwriad o amddiffyn ac adfer cynefinoedd sydd o dan fygythiad o droi'n anialwch. Yn yr un modd yn [Myanmar](#) maent yn defnyddio dronau i gyflymu'r broses o blannu miliynau o goed sydd yn anelu at ddiogelu ecosystem sy'n diflannu.

Mae BGCau cyhoeddus eraill sy'n ymroi i amddiffyn eu hamgylchedd ac ymgymryd â gwaith pellach i ddeall y peryglon i'w cymunedau yn cynnwys Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Powys; Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

- [Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd â ganddi gysylltiadau da.](#)

Mae'n bwysig eich bod yn cydnabod y cysylltiad rhwng eich amcanion llesiant, ac yn dangos bod eich amcanion yn maxsimeiddio'ch cyfraniad i bob un o'r nodau llesi ant. Mae gwledigrwydd a thrawsgludo yn amlwg yn themâu sy'n rhedeg drwy eich amcanion a dylai'r BGC roi amser o'r neilltu i ystyried ei fewnbwn a'i ddylanwad yn hyn o beth. Fel yr ydych yn cydnabod mae Sir Fynwy'n sir gefnog â llawer o botensial. Er bod cyflogau yn y sir, ar gyfartaledd yn is nag ar draws Cymru, mae pobl yn mwynhau byw yn Sir Fynwy gan gymudo i swyddi sy'n talu'n dda tu allan i'r sir. Yn fy adborth i'ch asesiad llesiant, gwneuthum eich annog i fod yn fwy clir am y modd yr ydych yn ystyried materion trawsffiniol. Mae hyn yn hynod o berthnasol pan fyddwch yn ymroi i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn.

Rwyf wedi son eisoes am y cyfle a gyflwynir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'n amlwg bod y BGC yn ymddiddori mewn cymryd mantais o'r cyfleoedd a gynigir gan y rhanbarth a buaswn yn eich cynghori, fel pobl mewn safleoedd o arweinyddiaeth, bod angen i chi ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gan gadw'ch amcanion drafft ar gyfer Sir Fynwy mewn golwg. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tlodi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Buaswn felly yn eich cynghori i annog bod gwerth o fewn y Brifddinas-Ranbarth nid yn unig yn cael ei osod ar dwf economaidd ond ar ddatblygu patrymau cyflogaeth a gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi yn y cymunedau mwyaf amddifad i annog sgiliau mewn technoleg, creadigrwydd a datrys-problemau er mwyn chwalu'r patrymau tlodi sy'n pontio cenedlaethau. Rwyf hefyd yn awyddus i weld sut mae'r Bwrdd yn ystyried creu ardal â ganddi well cysylltiadau, perthnasol i'r amcan drafft hwn. Yn ddiweddar [gwneuthum hefyd sylw ar waith ar y rhanbarthau dinasol](#) sydd wedi cael ei weithredi mewn ymateb i adroddiad diweddar Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "[Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy.](#)"

Yn gyffredinol, buaswn yn eich cynghori, fel arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, i ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn a maxsimeiddio'ch cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant. Sut fedrdech

chi ennyn ymgyfraniad pobl o'r cymunedau mwy anghyfartal yn Sir Fynwy i ofyn am eu barn ar greu cyfleoedd? Sut fedr eich sefydliadau gynnig prentisiaethau i bob oed? Fel y cyngorais uchod, ystyriwch sut y gall polisïau caffael facsimeiddio eich cyfraniad i Sir Fynwy sy'n gyfrifol yn fyd-eang, a sut fedrwch chi weithio a draws y BGC i wireddu hyn? Fel ardal â nifer uchel o fusnesau micro a busnesau newydd, a fedr eich polisïau sefydliadol ymroi i helpu busnesau lleol cynaliadwy, cwtogi ar drawsgludo nwyddau, yn hytrach na ffocysu ar gost yn unig? Mae [Fforwm y Dyfodol](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa'n gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i dreialu caffael cynaliadwy yng nghyd-destun y Ddeddf y mae Cyngor Sir Fynwy yn rhan ohono. Rwy'n cyngori'r Awdurdod Lleol i ddwyn y dysgu hwn, yn egniol, i mewn i'r BGC.

Rydych wedi cydnabod yr angen i wella ymgyfraniad busnesau a phobl mewn busnesau lleol yng ngwaith y BGC. Gallai cydweithio gyda hwy olygu gwireddu manteision niferus i'ch amcanion drafft. Er enghraifft, pa gyfrifoldebau cymdeithasol sydd gan y busnesau yn eu cymunedau? Sut fedr y BGC fanteisio ar y rhain i gwrdd â'u hamcanion? Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwf, beth am gyflwyno mentrau sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n maxsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant? Sut fedrwch chi hyrwyddo cydraddoldeb gyda'ch gilydd drwy ddenu talent yn ôl i'r sir? Sut fedr polisïau gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal? Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. A fedrwch chi fabwysiadu system gefnogi busnes seiliedig ar fusnesau'n maxsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant?

Fel y cyfryw, wrth ymdrin â'r amcan hwn, dylech ystyried pa ymagweddau arloesol y gallwch eu mabwysiadu. Gwnaeth yr arloesedd a fabwysiadwyd gan eich tîm cynorthwyol a'ch Cyngor yn y gorffennol argraff arnaf. Rydych eisoes wedi cydnabod bod potensial yn y fan hon i gysylltu datrysiadau digidol â'r dull y mae'r economi'n gweithio yn y sir drwy gysylltu microfusnesau â'r 'economi gig', gan gymryd maintais o'r dechnoleg sydd ar gynydd i gwtogi ar amser siwrneiau a gwella cysylltedd pobl â manau eraill yn y byd drwy fand eang cyflym iawn sydd ar gael yn eich ardal. Mae edrych tuag at yr hirdymor yn bwysig wrth ystyried y camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn oherwydd mae dyfodol gwaith a phatrymau cyflogi yn go wahanol i'r swyddi yr ydym yn gyfarwydd â hwynt yn awr. Mae [adroddiad Dyfodol Gwaith](#) yn rhagweld y bydd 65% o blant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gwneud swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Mae eich asesiad llesiant yn nodi bod y mwyafrif o boblogaeth Blaenau Gwent yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus ond rhagwelir y bydd hyn yn lleihau. [Ac yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd. Sut fedrwch chi weithredu nawr ar gyfer yr hirdymor a galluogi pobl i ifanc i ennill y sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol? Maent hwy eu hunain wedi tynnu sylw at y ffaiith bod gwaith tîm, cyfathrebu a hyder mor werthfawr i bobl ifanc â graddau da pan fyddant yn cychwyn gwaith, fel y nodwyd yn [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth y Tywysog 'Results for Life'](#). Mae eich ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg bron yn llawn dop, felly sut fedrwch chi weithredu yn awr i roi i blant, pobl ifanc ac oedolion sgiliau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg? Yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru, mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer ennill swydd.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, mae'n rhaid i chi ennyn ymgyfraniad ysgolion, Coleg Gwent, sefydliadau addysg uwch cyfagos yng Nghaerdydd a Bryste, cyflogwyr lleol a sefydliadau fel Yr Adran Gwaith a Phensiynau i gydweithio

gyda chi i ddarganfod datrysiadau arloesol gyda'ch gilydd. Bydd hyn yn anochel yn golygu rhoi'r gorau i rai pethau, ond bwriedir i'ch asesiad llesiant ddangos i chi ble mae angen ffocysu ar wasanaethau cyhoeddus yn awr, ac yn yr hirdymor. Er enghraifft, sut fedrwch chi weithredu yn awr, fel gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, sy'n ymwneud â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiannau bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac a fydd yn llesol i'r economi lleol? Mae [adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol? Mae hyn yn berthnasol i'ch amcan drafft sy'n ymwneud â newid demograffig a manteisio i'r eithaf ar y gweithgaredd sy'n bodoli yn eich ardal. Yn y dyfodol, bydd y cytbwysedd rhwng gwaith/hamdden yn dod yn fwy pwysig ac mae blog [Fforwm Economaidd y Byd](#) yn gofyn 'Beth yw ystyr gwaith?' ac yn dyfynnu: 'Credaf mewn dyfodol lle mae addysg wedi ei bwriadu nid i baratoi ar gyfer swydd arall ddiwerth, ond ar gyfer bywyd sy'n cael ei fyw yn dda.'

Mae Sir Fynwy'n elwa o economi twristiaeth ffyniannus, gyda gwariant yn cyrraedd £186,64m sy'n cynnal oddeutu 3,000 o swyddi llawn amser. Sut fedrwch chi annog twristiaeth gynaliadwy ar gyfer yr ardal drwy ddatblygu sir â chysylltiadau da? Sut fedr cymunedau ar draws Abergafenni (sy'n gweld llawer o dwristiaid) ymglyfrannu yn y dasg o ddarganfod llwybrau teithio llesol a chreu cyfleoedd i fusnesau bach a lleol? Gallai annog ffocws o gwmpas diwylliant ac iaith yr ardal hefyd eich helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau. Mae cymunedau gwledig eraill yn ystyried sut i gadw pobl ifanc yn yr hirdymor, gan [fod tueddiad i'w weld ar draws Cymru i bobl ifanc adael eu siroedd am gyfleoedd mewn mannau eraill](#). Mae ardaloedd gwledig yn Japan a Chanada hefyd wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl ifanc yn eu poblogaeth sy'n aros yn y man lle cawsant eu geni, gyda gwell technolegau ond hefyd yn adlewyrchu dathliad o ffordd o fyw a chyflwyno twristiaeth gynaliadwy. Awgryma'r [erthygl hon yn Fforwm Economaidd y Byd](#) y gallai rhai o'r atebion fod mewn mentrau cymunedol o'r gwaelod-ifyny, lle mae pobl ifanc yn ymfalchio mewn dweud wrth eraill am eu treftadaeth a'u hamgylchedd, ac fel y maent wedi cychwyn busnesau sy'n elwa ar ymweliadau twristiaid. Mae'r rhain eisoes yn bodoli yn Sir Fynwy a dylent fod yn rhan o'r ddealltwriaeth o'r modd y mae BGC yn medru meithrin twf drwy ei ddylanwad; fel yr awgrymir yn eich cynllun drafft, a fedrai hyn ennyn ymglyfraniad pobl ifanc mewn ymgymryd â phrentisiaethau neu hyfforddiant?

Mae nifer o FGCau eraill yn drafftio amcanion a chmau tebyg, yn cynnwys Powys; Caerdydd; Ceredigion; Casnewydd; Sir Benfro a Chaerffili.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhim os yr ydych chi angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a macsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthydych chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Sir Fynwy ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe